# Cymru i'r Byd a'r Byd i Gymru



**Oddi wrth: idwaliawen**

**Cymru i'r Byd a'r Byd i Gymru - Yr Ymgyrch er Hybu Twristiaeth yng Nghymru**

Annwyl gyd-aelodau.
Diolch i fenter a gwaith caled busnesau Cymru, mae twristiaeth yn ffynnu yma! Bellach, rôl y Llywodraeth yw marchnata Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr o bedwar ban y byd, hybu safonau uwch a marchnata cynhyrchion o Gymru.
Mae'n rhaid i ni bwyso ar y Llywodraeth i:

1. Buddsoddi £3m ychwanegol y flwyddyn yn y Cynllun Cefnogi Buddsoddi Twristiaeth er mwyn gallu
    a. rhoi arian i fusnesau i wneud buddsoddiadau newydd.
    b. cefnogi creu swyddi lleol mewn adeiladu ac ar draws y diwydiant twristiaeth.
2. Arwain menter fawr newydd i "ddathlu Cymru". Bydd hyn yn cynnwys "Dod Adref i Gymru" a hybu Cymru dramor.
3. Sefydlu Cymru fel cyrchfan chwaraeon, diwylliannol a chelfyddydol o bwys.
4. Cynyddu ymwybyddiaeth o fwyd a diod Cymreig sydd ar gael, trwy well marchnata a brandio. Gwneud hynny gartref a thramor fel bo ein cynhyrchion yn cael eu gwerthu ledled y byd.

Ymlaen!
Idwal



**Oddi wrth: SiencsM**

Wedi darllen e-bost Idwal Williams hoffwn godi dau bwynt:

1. Pwy fydd yn dod 'adref i Gymru'? Pobl ifanc ein colegau sydd wedi methu cael gwaith dramor? Ai eu perswadio i ddod adref i Gymru ar wyliau yw'r nod ynteu creu gwaith iddyn nhw ydy'r bwriad?
2. Onid ydy Cymru yn ddigon o 'gyrchfan chwaraeon' yn barod? Mae copa'r Wyddfa fel nyth morgrug ac yn brysurach na strydoedd Caerdydd ar benwythnosau yn yr haf.

Siencyn Morus



**Oddi wrth: Wildot**

Twristiaeth sy'n cynnal gogledd Cymru. Hynod o bwysig i'r economi. Mi fydda i'n sicr yn rhoi pwysau ar y Llywodraeth. Mae gennym gyfoeth o safleoedd sy'n boblogaidd gydag ymwelwyr. Mae Castell Conwy, er enghraifft, yn denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd ac y mae Cadw eisoes yn bwriadu cynnal mwy o ddigwyddiadau cyffrous yno. Mae'r un peth yn wir am gestyll Caernarfon a Harlech.
Wiliam

| | |
|---|---|
|  | **Oddi wrth: Elinblin**<br><br>A dyna'r union beth mae'r Saeson am ei weld! Dyrchafu cestyll Edward 1 – sumbol o oruchafiaeth Lloegr dros Gymru. Dydy'r cestyll Cymreig – sy'n llawer hŷn - fel Dolwyddelan neu Ddolbadarn ddim yn cael sylw o gwbl!<br>Els |
|  | **Oddi wrth: SiencsM**<br>Dydy honiad Elin ddim yn wir nac yn hollol deg. Ein bwriad ydy denu ymwelwyr trwy wahanol ffyrdd. Mae'r cestyll Cymreig yn atyniad twristaidd.  Gallwn drawsnewid Cymru, a gallwn ddathlu a hybu ein diwylliant amrywiol, ein hanes rhyfeddol, ein hiaith unigryw a harddwch rhyfeddol ein tirwedd. |
|  | **Oddi wrth: ElunedH**<br>Rydw i'n credu y dylen ni gynnal prosiectau twristiaeth fydd o fudd i gymunedau lleol trwy Gymru benbaladr. Fe ddylen ni ddefnyddio gweithwyr lleol, a chefnogi pobl leol i sefydlu busnesau twristaidd yn lleol, fel meysydd carafannau.<br>Eluned |
|  | **Oddi wrth: dileit**<br>Cytuno gydag Eluned. I ymateb i sylwad am bobl ifanc di-waith, oni ddylai ein hysgolion arwain ein pobl ifanc i ddilyn cyrsiau awyr agored fel y gallant weithio yn lleol? Ychydig iawn o Gymry Cymraeg sy'n hyfforddi i fod yn arweinyddion gweithgareddau awyr agored ac mae digon o swyddi ar gael yn y maes yna. Mae gwir angen buddsoddi arian i hybu cyfleoedd am waith mewn twristiaeth a diwydiannau cysylltiedig.<br>Dilys |